

## BYDDWCH YN ONEST YM MHOB PETH

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Anoga'r gynulleidfa i efelychu Jehofa, y Duw sydd "bob amser yn deg ac yn onest." Pwysleisia'r manteision o fod yn onest, gan gynnwys ennill cyfeillgarwch Jehofa a dod ag anrhydedd iddo

### **YDYCH CHI'N YSTYRIED GONESTRWYDD FEL Y MAE DUW?** (5 mun.)

Mae bod yn onest yn golygu dweud y gwir a delio gydag eraill mewn ffordd agored, anrhydeddus, a heb dwyll

Yn anffodus, mae twyll ac anonestrwydd yn rhemp yn y byd heddiw (2Ti 3:5, 13; *g*-E 10/10 3)

O ganlyniad i hynny, mae rhai yn credu nad oes ganddyn nhw ddewis ond troi at anonestrwydd (*g*-E 1/12 4-5)

Mae Jehofa yn dduw sydd "bob amser yn deg ac yn onest," ar y llaw arall, Satan yw "tad pob celwydd" (Deut 32:4; In 8:44)

Mae Jehofa yn ystyried anonestrwydd yn fater difrifol iawn (Dia 6:16, 17; Dat 21:8)

Mae rhaid i unrhyw un sy'n honni bod yn wir addolwr Duw fod yn onest bob amser [**Darllen Effesiaid 4:25**]

Rydyn ni eisiau anrhydeddu Jehofa drwy efelychu ei onestrwydd ef

### **BYDDWCH YN ONEST GYDA CHI'CH HUNAIN** (5 mun.)

Yn aml bydd pobl amherffaith yn twyllo'u hunain (Dia 16:25; Jer 17:9)

Rydyn ni i gyd yn atebol am ein gweithredoedd, da neu ddrwg (1Ti 5:24, 25; Heb 4:13)

Dylen ni weddio'n daer ar Jehofa a gofyn iddo chwilio'n calonnau ni, ein cywiro ni, a'n harwain [**Darllen Salm 139:23, 24**]

Dylen ni fod yn ostyngedig ac edrych arnon ni'n hunain i weld lle mae angen gwella a bod yn benderfynol o wneud y newidiadau (Iag 1:22-25)

Dylen ni fynd at henuriaid Cristnogol os bydd angen help ychwanegol arnon ni neu os ydyn ni wedi pechu'n ddifrifol (Iag 5:14, 15)

### **BYDDWCH YN ONEST YN Y TEULU A GYDAG ERAILL** (16 mun.)

Dylai gonestrwydd fod yn nodwedd amlwg ym mhob teulu Cristnogol

Mae'n rhaid i ŵr a gwraig fod yn agored ac yn onest â'i gilydd ond eto'n urddasol a charedig (Eff 4:25-27, 29-32)

Dydy gwŷr neu wragedd ddim yn gwylio pornograffi nac yn meithrin perthynas gyfrinachol ag eraill (Sal 26:4)

Mae rhaid i rieni ddysgu eu plant i fod yn onest ym mhopeth maen nhw'n ei ddweud a gwneud

Gall rhieni ddefnyddio esiamplau Beiblaidd, da a drwg, i ddysgu pwysigrwydd gonestrwydd (Ge 43:12; Jos 6:17-19; 7:11-25; 2Br 5:14-16, 20-27; *lv* 162-163 ¶7-8)

Mae rhaid iddyn nhw ddysgu drwy esiampl (Rhu 2:21)

Dylai gonestrwydd fod yn amlwg yn y ffordd rydyn ni'n trin eraill, gan gynnwys ein cyd-Gristnogion

Dydyn ni ddim yn dweud anwiredd am eraill nac yn taenu clecs maleisus amdany'n nhw (Le 19:16; Dia 6:16, 18, 19)

Dydyn ni ddim yn twistio'r gwirionedd nac yn rhoi camargraff er mwyn osgoi cael ein disgyblu neu i ennill rhyw fath o fantais

Ni ddylai agweddau sy'n cael eu hystyried yn normal yn ein diwylliant ni wanhau ein penderfyniad i fod yn onest

Dylai gonestrwydd lywio'r ffordd rydyn ni'n delio â'r byd seciwlar

Mae Jehofa'n casáu arferion busnes twyllodrus [**Darllen Diarhebon 11:1**] (*lv* 168 ¶15)

Mae rhaid inni gadw ein gair hyd yn oed os bydd hynny'n anodd (Sal 15:4; Dia 6:1-5)

Mae rhaid inni ddelio'n onest gydag awdurdodau'r llywodraeth (Mth 22:21; Rhu 13:1, 7; *w16.05*-E 30-31; *lv* 169 ¶16)

Mae'r rhai sy'n gweithredu'n onest mewn busnes yn dod i weld bod hyn yn beth ymarferol a buddiol i'w wneud (*g*-E 1/12 6)

### **BENDITHION GONESTRWYDD** (4 mun.)

Pan ydyn ni'n onest fe gawn ni gydwybod lân a pherthynas dda ag eraill (*wp16.1*-E 7)

Gall ein gonestrwydd fod yn fodd i ddenu eraill i'r gwirionedd (2Co 6:4, 7; *w13*-E 5/15 11 ¶15)

Mae gonestrwydd yn arwain at ennill cyfeillgarwch gyda Jehofa (Sal 15:1, 2; Dia 3:32)

Mae Jehofa yn addo gofalu am eraill sy'n gwrthod trachwant a chadw eu gonestrwydd (Heb 13:5, 6)

Mae Jehofa, sydd ddim yn gallu dweud celwydd, wedi addo rhoi bywyd tragwyddol i'r rhai sy'n glynu'n ffyddlon wrth egwyddorion y Beibl (Tit 1:2)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]